Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 88 (Cy. 25)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio ymhellach is-etholiadau llywodraeth leol penodol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Roedd yr is-etholiadau gohiriedig hyn i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021, ond byddant yn digwydd yn awr yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 88 (Cy. 25)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *28 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 67 ac 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ionawr 2021.

**Diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2020 p. 7.
(**2**) O.S. 2020/461 (Cy. 105).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "y cyfnod perthnasol", yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "28 Chwefror 2021".

(3) Yn rheoliad 3(1), yn lle "1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021" rhodder "1 Mawrth 2021 ac sy'n dod i ben ar 6 Mai 2021".

(4) Yn rheoliad 4(1), yn lle "1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021" rhodder "1 Mawrth 2021 ac sy'n dod i ben ar 6 Mai 2021".

(5) Yn rheoliad 5(1)(a), yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "28 Chwefror 2021".

**Diwygio Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn y diffiniad o "pleidlais ohiriedig", yn lle "1 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ar 16 Ebrill 2021" rhodder "1 Mawrth 2021 ac yn dod i ben ar 6 Mai 2021", a

(b) yn y diffiniad o "y cyfnod perthnasol", yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "28 Chwefror 2021".

(3) Yn rheoliad 9(1), yn lle "31 Ionawr 2021" rhodder "28 Chwefror 2021".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2021

(**1**) O.S. 2020/1399 (Cy. 310).